Adroddiad Eisteddfod y Dathlu Llandegfan 2024

Eleni, roedd Eisteddfod Llandegfan yn un arbennig gan ein bod yn dathlu canmlwyddiant o'i chynnal yn Neuadd y Plwyf. Cyfarfod cystadleuol yng Nghapel Barachia MC, Llandegfan oedd y dechrau ond trosglwyddwyd i'r Neuadd yn ddiweddarach.

Ar ddiwedd cystadlu'r bore, torrwyd cacen penblwydd y Steddfod a rhannwyd ymysg y dyrfa. Yn dilyn, rhoddodd Llywydd yr Eisteddfod, William Emrys Roberts, anabyddir fel Wil Tân, dipyn o hanes ei daith gerddorol a chyflwyno cerdd ysgrifenwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan y Prifardd Cen Williams-

Bu brwydro yng Nghwm Cadnant
ym mwrllwch dyddiau pell,
ond heddiw gwâr yw'r brwydro
dan haul y dyddiau gwell;
mwynhewch y dyddiau gwell.

Nid gynnau fydd yr arfau
ond gwên a gwyneb llon
cyfeillgar fydd y brwydro
yn yr Eisteddfod hon
y ganfed Steddfod hon.

Yma'n cystadlu eto
Oedolion brwd a phlant
Yn seiniau llon y Delyn
Bredfrydedd ym mhob tant
Wrth ddathlu heddiw'r cant
Y GAMP O GYRRAEDD CANT!

Cen Williams

Clodd Wil ei gyfraniad trwy ganu deuawd gyda Meilir,ei fab.

Arweiniwyd yr eisteddfod gan Dewi Hood, Pennaeth yr Ysgol, Meleri Evans, Huw Edward Jones, Arwyn Williams, Gary Pritchard a Rhian Medi Bishop gyda llu o wirfoddolwyr yn gwasanaethu fel stiwardiaid dan arweiniad John Eirian Davies ac eraill yn paratoi a gweini lluniaeth i'r beirniaid a'r swyddogion. Cafodd pob cystadleuydd feirniadaeth adeiladol a theg gan y beirniaid – Dennis Davies, Llanrwst, Sian Meinir, Penarth, Caerdydd a Gwennant Pyrs, Bangor. Cafwyd cystadlaethau arlunio ar gyfer ysgolion y cylch – Llandegfan, Beaumaris a Llangoed gydag Angela Ungoed Hughes a Helen Zalot yn mynd o ysgol i ysgol yn beirniadu'r gwaith.

I'r enillwyr Cynradd cyflwynwyd medal a logo arni luniwyd mewn cystadleuaeth gan blant Ysgol Llandegfan ac mae'n diolch i Greta Stuart am sicrhau cydweithio da rhwng y Steddfod a'r Ysgol.

Eleni roedd y ddwy seremoni, Seremoni Tlws yr Ifanc a'r Coroni, ar y cyd. Cafwyd teilyngdod yng nghystadleuaeth y Goron a chynhaliwyd seremoni hyfryd dan arweiniad Rhian Medi Bishop. Agorwyd gyda chaniad y corn gan Imogen May cyn i Rhiannon Jones offrymu Gweddi'r Orsedd. Yn dilyn y feirniadaeth gan y Prifardd Llion Jones, Bangor, hebryngwyd y bardd buddugol, Judith Morris, Penrhyncoch, i'r llwyfan gan Efa Emrys ac Esther Pleming. Coronwyd hi gyda choron yr Eisteddfod a chyflwynwyd coron fechan i'w chadw. Cyfarchwyd gan Nest Owen ac Edward Morris Jones a chanwyd cân y coroni gan Carys Eleri. Yna aethpwyd ymlaen i roi sylw i gystadleuaeth Tlws yr Ifanc. Clywsom gan y beirniad iddi fod yn gystadleuaeth niferus gyda 27 wedi cystadlu a'r safon mor uchel fel y gallai'r beirniad fod wedi gwobrwyo o leiaf 12 o'r cystadleuwyr. Siom i ni oedd fod Gwenno Robinson o Borth Einon, Penrhyn Gŵyr yn methu bod yn bresennol i dderbyn y Tlws gwydr hardd a hynny am ei bod yn cychwyn ar ei swydd gyntaf gyda BBC Radio Cymru y Dydd Llun canlynol. Rhoddodd Rhian Medi grynodeb i ni o hanes y ferch ddawnus hon y mae dyfodol disglair o'i blaen. Aeth yr ail wobr i Dalgarreg, Ceredigion ac i Rebecca Rees sy'n fyfyrwraig blwyddyn gyntaf yn Aberystwyth.

Enillodd Glesni Rhys Jones y wobr arbennig roddwyd gan y teulu i goffau Beryl Griffith, cyn-Ysgrifennydd yr Eisteddfod. Roedd gwobr ariannol o £200 a thlws o waith ei chwaer, Elisabeth Ann Evans, er cof amdani.

Bu dau Gôr yn cystadlu am Gwpan a gwobrau hael ac o drwch blewyn Côr Meibion Caernarfon dan faton Delyth Humphreys aeth â hi gyda Côr Adlais, Ynys Môn yn dynn ar eu sodlau dan faton Cathrin Hedges – cystadleuaeth gyffrous a swynol iawn.

Rhan annatod o weithgareddau'r llwyfan oedd y cyfeilyddion, Ann Peters Jones, Bodedern ac Olwen Jones, Bangor gyda Mona Meirion yn cyfeilio i Gôr Caernarfon ac Olwen i Adlais.

Mae Tïm gweithgar yn cyflwyno syniadau, gyda'r Ysgrifenyddion Ann Coleman, Helen Davies ac Angela Ungoed Hughes, Alun Roberts, y Trysorydd yn ddyheuig yn eu gwaith a Sian Arwel Davies yn Gydlynydd.

Bu Gwenno Llewelyn yn cofnodi'n ddibaid drwy'r dydd a'n gobaith yw ehangu'r defnydd o dechnoleg erbyn 2025.

Rydym yn ddyledus i'n noddwyr am gyfraniadau hael sydd yn hwyluso'r gwaith.